



HYSBYSIAD PREIFATRWYDD DATA CYNGOR SIR FYNWY

Cyfarwyddiaeth:	Menter
Gwasanaeth:	MonLife, MonConnect
Manylion Cyswllt:	dataprotection@monmouthshire.gov.uk
Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:	Gwasanaethau Twristiaeth

Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Mae'r hysbysiad hwn yn nodi ar ba sail y mae unrhyw ddata personol a gasglwn gennych o'n gwefan (<https://www.visitmonmouthshire.com>), neu eich bod yn darparu i ni drwy ddulliau eraill.

Mathau o wybodaeth personol y gallwn eu casglu a'u cadw amdanoch:

- Gwybodaeth cysylltu
- Gwybodaeth ariannol drafodol – ar gyfer pryniannau a wneir drwy'r e-Siop ac yng Nghanolfan Groeso Cas-gwent
- Gwybodaeth y cyfeiriad IP

Ffynonellau eich data personol

1 Efallai y byddwn yn casglu ac yn prosesu'r data canlynol arnoch chi:

- 1.1 Gwybodaeth rydych chi'n ei darparu drwy gwblhau ffurflenni ar wefan [VisitMonmouthshire.com](https://www.visitmonmouthshire.com). Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a ddarperir gan fusnesau, sefydliadau ac unigolion, am ymddangos ar y wefan, tanysgrifio i'n gwasanaethau (gan gynnwys derbyn cylchlythyrau). Efallai y byddwn hefyd yn gofyn i chi am wybodaeth pan fyddwch yn cystadlu mewn cystadleuaeth neu hyrwyddiad a noddir gennym ni a phan fyddwch yn adrodd am broblem gyda'n gwefan.
- 1.2 Gwybodaeth a gasglwn at ddibenion mesur gwerth a niferoedd twristiaeth yn Sir Fynwy.
- 1.3 Os byddwch yn cysylltu â ni, efallai y byddwn yn cadw cofnod o'r ohebiaeth honno.
- 1.4 Efallai y byddwn hefyd yn gofyn i chi gwblhau arolygon a ddefnyddiwn at ddibenion ymchwil, er nad oes rhaid i chi ymateb iddynt.
- 1.5 Manylion y trafodion rydych chi'n eu cyflawni drwy ein gwefan neu yng Nghanolfan Groeso Cas-gwent.
- 1.4 Manylion eich ymweliadau â'r wefan gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddata traffig, data lleoliad, blogiau a data cyfathrebu arall, p'un a oes angen hyn at ein dibenion bilio ein hunain neu fel arall a'r adnoddau rydych chi'n eu cyrchu.

2. Cyfeiriadau IP a Chwcis

2.1 Byddwn yn casglu gwybodaeth am eich dyfais, gan gynnwys eich cyfeiriad IP, y system weithredu a'r math o borwr, lle mae hyn ar gael, ar gyfer gweinyddu'r system ac i adrodd am wybodaeth gyfanredol i'n hysbysebwyd. Dyma ddata ystadegol am weithredoedd a phatrymau pori ein defnyddwyr, ac nid yw'n nodi unrhyw unigolyn.

2.2 Am yr un rheswm, byddwn yn derbyn gwybodaeth am eich defnydd o'n Gwefan trwy ddefnyddio cwci sy'n cael ei storio ar yriant caled eich dyfais. Defnyddir cwci i wneud i'n Gwefan weithio ac i ddarparu gwasanaeth gwell a mwy personol. Maent yn ein galluogi:



HYSBYSIAD PREIFATRWYDD DATA CYNGOR SIR FYNWY

- a. I amcangyfrif maint a phatrwm defnydd ein cynulleidfa.
- b. I storio gwybodaeth am eich dewisiadau, ac felly caniatáu i ni addasu ein Gwefan yn ôl eich diddordebau unigol.
- c. I gyflymu eich chwiliadau.
- ch. I'ch adnabod pan fyddwch yn dychwelyd i'n Gwefan.

2.3 Y cwcis sy'n cael eu defnyddio ar ein Gwefan yw:

- a. ASP.NET_SessionId - Mae'r cwci hwn yn hanfodol ar gyfer gweithredu a llywio ein Gwefan. Mae'r cwci yn cael ei ddileu pan fyddwch chi'n cau eich porwr.
- b. _utma, _utmb, _utmc, _utmz - Defnyddir y cwcis hyn gan Google Analytics i gasglu gwybodaeth am sut y mae ymwelwyr yn defnyddio ein safle. Defnyddiwn y wybodaeth i lunio adroddiadau ac i'n helpu ni i wella'r safle. Mae'r cwcis yn casglu gwybodaeth ar ffurf ddiennw, yn cynnwys nifer yr ymwelwyr â'r safle, o ble mae ymwelwyr wedi dod i'r safle a'r tudalennau y buont yn ymweld â nhw. I ddewis peidio â chael eich tracio gan Google Analytics ar draws pob gwefan, ewch i <https://tools.google.com/dlpage/gaoptout>.
- c. dmsTPC - Defnyddir y cwci hwn i gofnodi a yw defnyddiwr wedi derbyn defnyddio cwcis Google Analytics ar wefan <https://cy.visitmonmouthshire.com/>. Mae'r cwci hwn yn cael ei ddileu pan fyddwch chi'n cau eich porwr.
- ch. I gael gwybod mwy am gwcis, gan gynnwys sut i weld pa gwcis sydd wedi'u gosod a sut i'w rheoli a'u dileu, ewch i visit www.allaboutcookies.org

2.4 Nid yw'r polisi preifatrwydd hwn yn ymdrin â'r dolenni o fewn y safle hwn sy'n cysylltu â gwefannau eraill. Rydym yn eich annog i ddarllen y datganiadau preifatrwydd ar y gwefannau eraill y byddwch yn ymweld â nhw.

2.5 Efallai y byddwn yn ymgorffori fideos o'n sianel YouTube swyddogol gan ddefnyddio modd preifatrwydd gwell YouTube. Gall y modd hwn osod cwcis ar eich dyfais unwaith y byddwch yn clicio ar y chwaraewr fideo YouTube, ond ni fydd YouTube yn storio gwybodaeth cwcis a adnabyddir yn bersonol ar gyfer chwarae fideos wedi'u hymgorffori gan ddefnyddio'r modd preifatrwydd gwell. I gael gwybod mwy ewch i dudalen wybodaeth ymgorffori fideos YouTube: <https://www.google.com/support/youtube/bin/answer.py?hl=en-GB&answer=171780> .

2.6 Gallwn arddangos naill ai (neu'r ddau) o'r teclynnau canlynol:

- a. Teclynnau porthiant (teclynnau sy'n arddangos porthiant o'n tudalen rhwydwaith cymdeithasol). Nid yw'r teclynnau hyn yn creu cwci.
- b. Rhannu teclynnau (fel Facebook Like, Twitter Share neu AddThis) sy'n eich galluogi i rannu cynnwys <https://cy.visitmonmouthshire.com/> i'ch ffrindiau neu ddilynwyr. Yn ddiodyn nid yw'r rhain yn creu cwci nes eich bod wedi clicio ar y graffig neu'r eicon sy'n cynrychioli'r rhwydwaith rhannu yr hoffech ei ddefnyddio. Drwy glicio ar y graffig neu'r eicon rydych yn cydsynio i drosglwyddo data i'r rhwydwaith cymdeithasol priodol.

Polisi preifatrwydd Facebook ar ategion cymdeithasol:

<https://www.facebook.com/about/privacy/your-info-on-other#socialplugin>

Polisi preifatrwydd Twitter ar gwcis a rhannu gwybodaeth: <https://twitter.com/privacy> .

Polisi preifatrwydd AddThis ar gwcis a rhannu gwybodaeth: <http://www.addthis.com/privacy> .



HYSBYSIAD PREIFATRWYDD DATA CYNGOR SIR FYNWY

3. Lle rydym yn storio eich data personol

3.1 Gan fod ein gweinyddion wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig, y data yr ydym yn ei gasglu gennych chi'n

cael ei gasglu, ei brosesu, ei storio a'i drosglwyddo yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Trwy gyflwyno eich data personol, rydych yn cytuno i'r trosglwyddiad, storio neu brosesu hyn. Byddwn yn cymryd pob cam rhesymol angenrheidiol i sicrhau bod eich data yn cael ei drin yn ddiogel ac yn unol â'r polisi preifatrwydd hwn.

3.2 Nid yw trosglwyddo gwybodaeth drwy'r rhyngwrwyd yn gwbl ddiogel. Er y byddwn yn gwneud ein gorau i ddiogelu eich data personol, ni allwn warantu diogelwch eich data a drosglwyddir i'n Gwefan; mae unrhyw drosglwyddiad ar eich menter eich hun. Unwaith y byddwn wedi derbyn eich gwybodaeth, byddwn yn defnyddio gweithdrefnau a nodweddion diogelwch priodol i geisio atal mynediad heb awdurdod.

Pwrpas a sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

Pwrpas y prosesu, y sail gyfreithiol ar gyfer y cyfnodau prosesu a chadw

4.1 Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a gedwir amdanoch yn y ffyrdd canlynol:

a. Sicrhau bod cynnwys o'n gwefan yn cael ei gyflwyno yn y modd mwyaf effeithiol i chi ac ar gyfer eich dyfais.

b. I ddarparu gwybodaeth, cynhyrchion neu wasanaethau i chi yr ydych yn gofyn amdanynt gennym ni neu yr ydym yn teimlo a allai fod o ddiddordeb i chi, lle rydych wedi cydsynio i ni eich cysylltu at ddibenion o'r fath.

c. I gyflawni ein rhwymedigaethau sy'n deillio o unrhyw gontractau yr ymrwymwyd iddynt gan gynnwys trwy ein Gwefan.

ch. Caniatáu i chi gymryd rhan mewn nodweddion rhyngweithiol ein gwasanaeth, pan fyddwch yn dewis gwneud hynny.

d. Rhoi gwybod i chi am newidiadau i'n gwasanaeth.

dd. Eich diweddarau'n rheolaidd am ein gwasanaethau a'n hyrwyddiadau mewn Cylchlythyrau.

4.2 Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio'ch data i roi gwybodaeth i chi am nwyddau a gwasanaethau a allai fod o ddiddordeb i chi ac efallai y byddwn yn cysylltu â chi am y rhain drwy e-bost, neges destun, post neu dros y ffôn.

4.3 Pan fyddwn yn caniatáu i'n cymdeithion ddefnyddio eich data, byddwn ni (neu nhw) yn cysylltu â chi dim ond os ydych wedi cydsynio i hyn.

4.4 Nid ydym yn datgelu gwybodaeth am unigolion y gellir eu hadnabod i'n hysbysebwr neu sefydliadau eraill, ond efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth gyfun iddynt am ein defnyddwyr (er enghraifft, efallai y byddwn yn eu hysbysu bod 500 o ddynion o dan 30 oed wedi clicio ar eu hysbyseb ar unrhyw ddiwrnod penodol). Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio gwybodaeth gyfun o'r fath i helpu hysbysebwr i gyrraedd y math o gynulleidfa y maent am ei thargedu (er enghraifft, menywod yn SW1). Efallai y byddwn yn defnyddio'r data personol yr ydym wedi'i



HYSBYSIAD PREIFATRWYDD DATA CYNGOR SIR FYNWY

gasglu gennych chi i'n galluogi i gydymffurfio â dymuniadau ein hysbysebwytr trwy arddangos eu hysbyseb i'r gynulleidfa darged honno.

4.5 Ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data personol:

- a. Gweld ein gwefan ac anfon ymholiadau atom - Angenrheidiol ar gyfer y dasg gyhoeddus a gyflawnir er budd y cyhoedd i hyrwyddo lles economaidd yn Sir Fynwy.
- b. Archebion (gyda cheisiadau adolygu) a gorchmynion e-Siop - Angenrheidiol ar gyfer cyflawni contract.
- c. Marchnata/eGylchlythyrau – Cydsyniad.

Eich hawl i dynnu'ch cydsyniad yn ôl

Mae gennych yr hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl i brosesu gwybodaeth at ddibenion marchnata. Rydym yn gweithredu dewis dewisol ar gyfer derbyn cyfathrebiadau marchnata a byddwn yn enwi'n glir unrhyw sefydliadau eraill a allai brosesu eich data personol. Gallwch arfer eich hawl i atal prosesu o'r fath ar unrhyw adeg drwy ddefnyddio'r swyddogaeth dad-danysgrifio ar e-bost marchnata a dderbyniwyd neu drwy gysylltu â ni drwy e-bost: tourism@monmouthshire.gov.uk neu ar Rif Ffôn: 01633 644842.

Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth?

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Sir Fynwy.

E-bost: dataprotection@monmouthshire.gov.uk

Efallai y bydd Rheolwyr Data Eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch â'r Gwasanaeth am ragor o wybodaeth.

Dyma'r adrannau rydym yn rhannu eich data â nhw'n fewnol:

Dim

Dyma'r asiantaethau/sefydliadau allanol rydym yn rhannu eich data gyda nhw:

Caiiff gwefan marchnata cyrchfan Sir Fynwy <https://cy.visitmonmouthshire.com/> ei yrru gan un o gronfeydd data cynnyrch mwyaf cynhwysfawr a chyfredol Cymru (Wales Tourism Product Database) sydd hefyd yn gyrru gwefan <https://www.croeso.cymru/cy>. Gall sefydliadau'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys NVG, sy'n hyrwyddo twristiaeth a busnesau lleol, sy'n defnyddio protocol Guestlink (a weithredir gan NVG Ltd) i ddarparu cofnod ar Gronfa Ddata Cynnyrch Twristiaeth Cymru, brosesu eich data busnes. Gall y seiliau cyfreithlon ar gyfer prosesu eich data busnes fod 'Contract', 'Buddiannau Cyfreithlon' neu 'Tasg Gyhoeddus', yn dibynnu ar drefniadaeth a natur y prosesu. Mae hyn yn prosesu y gallech ei ddisgwyl yn rhesymol, mewn perthynas â'ch presenoldeb busnes ar wefannau a chyhoeddiadau'r sefydliadau a'ch defnydd o Guestlink.

Fel rhan o'r prosesu, gall y sefydliadau gysylltu â'ch busnes ynglŷn â'ch defnydd o Guestlink, diweddarau eich cofnod ar wefannau a chyhoeddiadau'r sefydliadau, neu sut i ddefnyddio nodweddion system a allai fod o fudd i'ch niferoedd cwsmeriaid neu wariant cwsmeriaid.

Gall **NVG (Cyf)** ddatgelu eich gwybodaeth bersonol i unrhyw aelod o'u grŵp, sy'n golygu eu his-gwmnïau, eu cwmni daliannol terfynol a'i is-gwmnïau, fel y'u diffinnir yn adran 736 o Ddeddf Cwmnïau'r DU 1985.



HYSBYSIAD PREIFATRWYDD DATA CYNGOR SIR FYNWY

Efallai y byddan nhw'n datgelu eich gwybodaeth bersonol i drydydd parti:

- a. Os byddant yn gwerthu neu'n prynu unrhyw fusnes neu asedau, ac os felly gallant ddatgelu eich data personol i ddarpar werthwr neu brynwr busnes neu asedau o'r fath.
- b. Os bydd trydydd parti, neu'r rhan fwyaf o'u hasedau, yn cael eu caffael gan drydydd parti, ac os felly bydd data personol a gedwir ganddynt am ein cwsmeriaid yn un o'r asedau a drosglwyddir.
- c. Os ydynt dan ddyletswydd i ddatgelu neu rannu eich data personol er mwyn cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, neu er mwyn gorfodi neu gymhwyso ein Telerau ac Amodau a chytundebau eraill; neu i ddiogelu hawliau, eiddo, gwybodaeth gyfrinachol neu ddiogelwch ein Gwefan, cwsmeriaid, cwmnïau cysylltiedig neu eraill ac yn benodol os oes angen i ni atal unrhyw dwyll neu drafodion twyllodrus. Mae hyn yn cynnwys cyfnewid gwybodaeth gyda chwmnïau a sefydliadau eraill at ddibenion amddiffyn rhag twyll a lleihau risg credyd.

Gall ein gwefan, o bryd i'w gilydd, gynnwys dolenni i ac o wefannau ein partner. Rhwydweithiau, hysbysebwyrr a chysylltiadau. Os byddwch yn dilyn dolen i unrhyw un o'r gwefannau hyn, nodwch fod gan y gwefannau hyn eu polisiau preifatrwydd eu hunain ac nad ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb neu atebolrwydd am y polisiau hyn. Gwiriwch y polisiau hyn cyn i chi gyflwyno unrhyw ddata personol i'r gwefannau hyn.

Bydd gwybodaeth ariannol drafodol (sy'n ymwneud â phrynu a wneir trwy Ganolfan Croeso Casgwent a thrwy'r e-Siop) yn cael ei rhannu â Banc Barclays.

Ceisiadau am wybodaeth

Gall yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Sir Fynwy fod yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol gan gynnwys unrhyw gyfraith Diogelu Data arall.

Os yw'r wybodaeth a ddarperir gennych yn agored i gais o'r fath, lle y bo'n bosibl, bydd Cyngor Sir Fynwy yn ymgynghori â chi o ran ei datgelu. Os ydych yn gwrthwynebu datgelu'ch gwybodaeth, byddwn yn atal eich gwybodaeth os yw'r ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu hynny.

Am ba mor hir byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Mae pa mor hir mae Cyngor Sir Fynwy yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu trwy ofynion statudol neu arfer gorau.

Ein cyfnodau cadw ar gyfer eich data personol:

- a. Bydd cofnodion Cronfa Ddata Gweithredol yn cael eu dileu ar ôl hysbysiad o gau busnes neu ar ôl 18 mis o'u defnyddio ddiwethaf.

Bydd cofnodion Cronfa Ddata E-Farchnata yn cael eu dileu ar ôl 24 mis o'u defnyddio ddiwethaf, e.e. anfon e-bost.

Storio a chyhoeddi cofnodion busnes:

- a. Ar gyfer storio a chyhoeddi cofnodion busnes ar y wefan hon, ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r data hwn yw "tasg gyhoeddus". Mae gwefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn nodi'r canlynol, "mae angen y prosesu er mwyn i chi gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu ar gyfer eich swyddogaethau swyddogol".



HYSBYSIAD PREIFATRWYDD DATA CYNGOR SIR FYNWY

b. Rydym yn storio llety, lleoliad a manylion busnes eraill (Data Masnach) yn ein cronfa ddata i hwyluso'r gwaith o'u cyhoeddi ar y wefan hon. Mae ein sail gyfreithiol ar gyfer y prosesu hwn yn rhan o'n tasg gyhoeddus. Mae manylion busnes, yn ôl eu natur, eisoes yn y parth cyhoeddus ac rydym yn eu defnyddio mewn ffordd y byddai'r busnesau yn rhesymol yn disgwyl ac y gallai buddio ohonynt.

Marchnata

Rydych wedi rhoi caniatâd i'ch manylion cyswllt gael eu defnyddio at ddibenion marchnata. Byddwch / Rydych wedi cael manylion y marchnata y bydd Cyngor Sir Fynwy yn hoffi gwneud, ynghyd ag unrhyw opsiynau megis sut yr hoffech gael y cyswllt hwnnw. Gallwch chi dynnu'n ôl eich caniatâd i farchnata ar unrhyw adeg trwy gysylltu â manylion y Fan Gwasanaeth ar frig y ffurflen hon.

Eich Hawliau

Eich hawliau o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yw:

- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl at fynediad
- Yr hawl i iawndal os yw Cyngor Sir Fynwy yn methu â chydymffurfio â gofynion penodol y Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol mewn perthynas â'ch gwybodaeth.

Mae'r Ddeddf yn rhoi'r hawl i chi gyrchu'r wybodaeth a gedwir amdanoch. Gall eich hawl mynediad cael ei arfer yn unol â'r Ddeddf. O 25 Mai 2018, pan ddaw RhDDC yn gyfraith, gellir gwneud Cais Mynediad Gwrthrych rhesymol heb i ffi gael ei godi. Bydd yn cael ei gynnal o fewn mis. Fel rhan o SAR, gallwch ofyn i'ch data personol fod wedi'i gywiro neu ei ddileu. Gall unrhyw archeb logi neu archebion sydd ar y gweill effeithio ar ganlyniad cais i ddileu.

Os nad ydych yn fodlon â'n hymateb gallwch gysylltu ag awdurdod goruchwyllo'r DU, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, <https://ico.org.uk> er mwyn adrodd eich pryder.

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.ico.org.uk

Gweithdrefn Gwyno

Os ydych yn gwrthwynebu i'r ffordd y mae Cyngor Sir Fynwy yn trin eich data, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Gwasanaeth a nodwyd ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich problemau. Dilynwch y ddolen hon i gael rhagor o wybodaeth am y [broses gwyno](#).

Os ydych yn dal yn anhapus mae gennych hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth www.ico.org.uk

Rhif Hysbysiad	MonLifeTO001
Preifatrwydd:	25.05.18
Dyddiad Llunio:	25.05.18
Dyddiad Cyhoeddi:	1
Rhif y Fersiwn:	



HYSBYSIAD PREIFATRWYDD DATA CYNGOR SIR FYNWY

Hysbysiad Preifatrwydd Data Cryno

Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Mae angen prosesu eich data personol gan Gyngor Sir Fynwy i reoli cyrchfan Sir Fynwy a'i hyrwyddo i ymwelwyr. Heb y wybodaeth hon, efallai na fydd y gwasanaeth twristiaeth o fewn Cyngor Sir Fynwy yn gallu cyflawni ei dasg gyhoeddus o hyrwyddo lles economaidd.

Ni fydd eich manylion yn cael eu rhannu ag unrhyw adrannau mewnol neu sefydliadau allanol oni nodir yn yr hysbysiad preifatrwydd llawn, neu mewn perthynas â diogelu neu rwymedigaethau cyfreithiol eraill.

Bydd eich cofnodion yn cael eu storio a'u cadw'n ddiogel yn unol â'n polisi cadw, oni bai bod angen i ni eu cadw o dan sail gyfreithlon arall.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych yn anfodlon gyda'r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu. I gael rhagor o wybodaeth am sut y byddwn yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, cliciwch y ddolen ganlynol: <https://www.visitmonmouthshire.com/thedms.aspx?dms=531>

Os bydd angen i chi wneud cwyn am y ffordd y mae eich data wedi'i brosesu, cysylltwch â dataprotection@monmouthshire.gov.uk neu os nad ydych chi'n llwyr fodlon, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar-lein yn <https://ico.org.uk/about-the-ico/other-languages/welsh/welsh-complaints/> neu drwy eu llinell gymorth: 0303 123 1113